**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

593/01

# CYMRAEG AIL IAITH *(WELSH SECOND LANGUAGE)*

## CA3

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

P.M. DYDD LLUN, 22 Mai 2006
*P.M. MONDAY, 22 May 2006*

(2 Awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

Pan fydd gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol.

Atgoffir chi ei bod yn angenrheidiol ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch gwaith yn drefnus.

Dylech dreulio **AWR** ar bob adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Ni** chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this examination paper you will need an 8 page answer book.*

***INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES***

*Answer **all** questions in Section A and Section B.*

*When you are asked to express an opinion or viewpoint you should give your reasons for them.*

*Quotations and literary criticism terms should be used.*

*You are reminded that you should write good, correct Welsh and present your work neatly.*

*You should spend **1 HOUR** on each section.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.*

*Copies of the poetry and dictionaries are **not** permitted.*

*No certificate will be awarded to a candidate detected in any unfair practice during the examination.*

## ADRAN A

### Defnyddio'r Iaith

**1.** Lluniwch frawddegau **(un frawddeg yr un)** i ddangos yn eglur ystyr y priod-ddulliau a'r geiriau tebyg canlynol: [20]

(i) yn awr ac yn y man

(ii) pwyso a mesur

(iii) o dipyn i beth

(iv) ar ei ben ei hun

(v) dal ei thafod

(vi) unwaith ac am byth

(vii) uwchben ei ddigon

(viii) wrth ei bodd

(ix) Cymru

(x) Cymry

**2.** Ailysgrifennwch y brawddegau canlynol gan gywiro'r gwallau sydd wedi eu tanlinellu. [20]

*(a)* Rydw i'n meddwl bod mae llawer o bobl yn mynd i'r briodas.

*(b)* Rhai weithiau mae ffilm dda ar y teledu.

*(c)* Roedd nhw'n gallu ateb y cwestiwn yn hawdd.

*(ch)* Pedair blwyddyn yn ôl es i dramor ar fy ngwyliau.

*(d)* Pan clywais y newyddion roeddwn i'n drist iawn.

*(dd)* Darllenodd nhw'r nofel am y tro cyntaf.

*(e)* Dylen y bobl swnllyd yn y stryd ystyried eu cymdogion.

*(f)* Meddyliwch am hi'n sâl yn yr ysbyty.

*(ff)* Cofiwch dalu amdano'r bwyd.

*(g)* Dyna'r ferch pa sy'n canu yn yr eisteddfod.

**3.** Darllenwch yr addasiad canlynol o gyfweliad rhwng Aled a'r nofiwr, David Davies, a chwblhewch y dasg isod. [20]



| | |
|---|---|
| Aled: | Dywedwch ychydig am eich cefndir. |
| David: | Rydw i'n dod yn wreiddiol o'r Barri. |
| Aled: | Beth am eich addysg? |
| David: | Astudiais i Gymraeg yn yr ysgol ac fe wnes i Gymraeg safon uwch yn nosbarth chwech. Rydw i'n siarad Cymraeg yn rhugl. |
| Aled: | Rydych chi'n nofiwr profiadol erbyn hyn. |
| David: | Enillais i fedal Olympaidd yn y gêmau yn Athen y llynedd. Torrais i record Prydain ac Ewrop am y ras 1500 metr. |
| Aled: | Sut oeddech chi'n teimlo ar ddiwedd y ras? |
| David: | Doeddwn i ddim yn synnu ennill medal ond roeddwn i'n teimlo rhyddhad mawr. |
| Aled: | Mae pobl yn disgwyl llawer gennych nawr. |
| David: | Rydw i'n credu bod cymaint i'w gyflawni o hyd. Bydda i'n gorfod gweithio ac ymarfer yn galed. |
| Aled: | A'r dyfodol? |
| David: | Hoffwn i ennill mwy o fedalau Olympaidd. |

Gan ddefnyddio'r **holl** wybodaeth am David Davies yn y cyfweliad, ysgrifennwch erthygl ffurfiol ar gyfer cylchgrawn Cymraeg yn sôn amdano.

Dechreuwch fel hyn:

'Mae David Davies yn dod yn wreiddiol o'r Barri…'

(Bydd yn rhaid newid **10 berf** wrth ysgrifennu'r erthygl.)



**Trosodd.**

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**(Gwobrwyir dyfynnu pwrpasol wrth ateb y cwestiwn hwn)**

*(a)* Cerdd yn disgrifio bywyd trist merch a fu farw o effaith cyffuriau yw *Gail, fu Farw* gan Nesta Wyn Jones. **Yn eich geiriau eich hun**, disgrifiwch yr hyn mae'r bardd yn ei ddweud yn y gerdd. [20]

*(b)* Pa dechnegau y mae'r bardd yn eu defnyddio i gyflwyno'i neges yn y gerdd hon?
Yn eich barn chi, beth ydy pwrpas ac effaith defnyddio'r technegau hyn? [20]

*(c)* Rhowch eich **ymateb personol** i'r gerdd hon a'i phwnc. [20]